CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd:** Gari B Jones

Nos Fawrth Mai 21ain 2024 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (114)

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Sirol Gwennol Ellis
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Gethin Pyrs, Edmund Rees, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda - neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Mawrth** cynigiwyd yn gywir gan ER gydag AO yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
   CBSC – wedi derbyn y taliad cyntaf o'r Presept **£1,777.00.**
7. **Monitro'r Gyllideb:**
   i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
   ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
8. **Talu Anfonebau:**
   8.1.1. Un Llais Cymru - cynigiodd ER gyda GJ yn eilio talu'r anfoneb yr aelodaeth o **£62.00** gyda siec rhif **100405.** (S133)
   8.1.2. Hill a Roberts – cyfrifydd - cynigiodd ER gyda GJ yn eilio talu'r anfoneb o £125.00 + TAW £25.00 = **£150.00** gyda siec rhif **100406** (S151)
   8.1.3. Costau'r Clerc am 4 mis o Ragfyr i Fawrth – cynigiodd ER gyda AO yn eilio talu'r costau o **£86.00** gyda siec rhif **100407** (S150)
9. **Lwfansau Aelodau 2024/25:**
   Rhannwyd allan y ffurflenni lwfansau i'r Cynghorwyd a gwblhawyd a llofnodwyd hwy.
10. **Mabwysiadu'r Rheolau:**
    - Rheoliadau Sefydlog
    - Rheoliadau Ariannol
    - Rheoliadau Mewnol
    - Polisi Ymateb i Gwynion
    - Asesiad Risg
    - Còd Ymddygiad (Cymraeg)
    - Còd Ymddygiad (Saesneg)

    Derbyniwyd oll o'r Rheolau yn gywir a chyflawn ac arwyddwyd gan y Cadeirydd.
11. **Derbyn a Chymeradwyo:**
    Mantolen Flynyddol 2023-24
    - Datganiad Llywodraeth Flynyddol (rhan 1 a 2) cynigiodd ER gyda GP yn eilio a phawb yn gytûn bod pwyntiau 1 – 9 wedi eu cwblhau.
    - Datganiadau cyfrifyddu 2023/24 archwiliwyd y fantolen yn fanwl gydag AO yn cynnig a GJ yn eilio yna cytunwyd pawb fod y fantolen yn gywir a chyflawn.
    - Derbyniwyd sylwadau'r Archwilydd Mewnol. Dim angen gweithredu.
12. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis**: nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
13. **Unrhyw fater arall**:
    13.1. Sgip Gymunedol – penderfynwyd trafod y mater yng nghyfarfod mis Medi.
    13.2. Holi oes modd cael diffib ym mlwch ffôn Glan 'Rafon.
14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** nos Fawrth Mehefin 4ydd 2024

Arwyddwyd______________________________ Dyddiad 02.07.24

Cadeirydd